



GWERSI 2 a 3- Yn y dechrau'n deg – darllen ar gyfer deall Dan y Wenallt.

Nod gwers 2: Datblygu sgiliau darllen manwl i sylwi ar sut mae Dylan Thomas yn adeiladu naws ac awyrgylch yn agoriad y ddrama, gan ganolbwyntio ar eirfa. Angen: darn o destun agoriadol *Dan y Wenallt*

Darllen

- defnyddio'ŷ gwybodaeth am y canlynol:
 - tarddiadau a theuluoedd geiriau
 - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
 - cynnwys a chyd-destuni wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt
- defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr

RHAN 1

Yr athro neu'r dosbarth i ddarllen yr agoriad. Tasg 1 : rhannu meddyliau.

RHAN 2

Edrych yn ofalus ar eiriau.

Cyflawni Tasg 2, gydag arweiniad wedyn wrth yr athro i drafod anawsterau geirfa, a'r defnydd o iaith sir Gaerfyrddin.

RHAN 3

Sylwi ar eirfa ddisgrifiadol. Cyflawni Tasg 3 a thrafod dewisiadau'r dysgwyr.

Darllen/gwrando ar y fersiwn Saesneg er mwyn cymharu a mynegi barn. Gellir clywed recordiad o Dylan Thomas ar

<http://www.youtube.com/watch?v=c2a6zCR-ycs>



GWERS 3

Nod gwers 3: Datblygu sgiliau darllen manwl i sylwi ar sut mae Dylan Thomas yn adeiladu naws ac awyrgylch yn agoriad y ddrama – canolbwyntio ar strwythur.

AT2

- use their knowledge of:
 - word roots and families
 - grammar, sentence and whole-text structure
 - content and context
 - to make sense of words, sentences and whole texts
- read with concentration texts, on-screen and on paper, that are new to them, and understand the information in them
- use inference and deduction to understand layers of meaning

Cyflwyniad:

Munud o alw i gof rai o eiriau neu ddelweddau allweddol o'r wers ddiwethaf, heb edrych ar y testun.

RHAN 1

Darllenwch y paragraff cyntaf. Gan weithio mewn grwpiau o 3 os yw'n ymarferol, un i chwilio am fanylion ynglŷn ag Amser, un arall ynglŷn â Lleoliad a'r olaf am Bobl. Cronni a rhannu syniadau i gyflawni Tasg 1.

RHAN 2

Sgiliau cip-ddarllen. Mewn ychydig funudau, sganio'r darn a phenderfynu beth yw prif bwynt pob 'pennill' neu baragraff yn y cyflwyniad i Llareggub. Cyflawni Tasg 2.

PART 3

Gwaith pâr. Rhannu'r gwaith darllen er mwyn talu sylw i atalnodi. Cyflawni tasg 3.

TASG GREADIGOL/YMESTYNNOL